



PROSIECT LLWYBR BEICIO UPPER BANK



PROSIECT LLWYBR BEICIO UPPER BANK

Pam mae'n digwydd?

Dyluniwyd y llwybr beicio newydd i ddarparu cyswllt i feicwyr a cherddwyr ar arwyneb a rennir a di-draffig o Heol Jersey i Ffordd Nantong. Bydd y llwybr yn dilyn llwybr hen Reilffordd Bro Tawe o amgylch ymyl ogleddol Llyn Pluck gan gysylltu â Pharc Manwerthu'r Morfa a'r tu hwnt. Bydd y cynllun yn cynnig cysylltiadau gwell i'r rhwydweithiau beicio presennol, gan gynnwys Llwybr Beicio Cenedlaethol 43 yn ogystal â chyfleuster croesi i feicwyr ar Ffordd Brunel y tu allan i Stadiwm Liberty a llwybr ar hyd afon Tawe o flaen datblygiad yr Ardal Gopr.

Ariennir y cynllun drwy Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru.

Beth yw'r manteision?

Bydd y llwybr yn darparu cysylltiadau rhwng cerddwyr a beicwyr a'r safleoedd menter a manwerthu a'r ardaloedd preswyl gerllaw, yn agor mynediad i lan yr afon ac yn cynnig gwelliannau amgylcheddol. Mae'r llwybr wedi cael ei gynllunio'n ofalus i ddiogelu'r fflora a'r ffawna ar y safle ac mae'r gwaith wedi cael ei ddatblygu gan ystyried y cennau a'r bryoffytau niferus a phrin a nodwyd gan ecolegwyr.

Mae'r llwybr yn ychwanegu at y rhestr o lwybrau beicio heb draffig sy'n addas i deuluoedd yn Abertawe ac mae'n tynnu sylw at ymrwymiad yr awdurdod i annog ffyrdd cynaliadwy o deithio.

